# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2019

Amser: 08.30 - 08.58

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

*Busnes yr Wythnos Hon*

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Bydd yr holl bleidleisio ac eithrio Cyfnod 3 yn digwydd cyn y Ddadl Fer.

Yn dilyn cais Vikki Howells yr wythnos diwethaf i symud ei Dadl Fer, nododd y Rheolwyr Busnes fod Neil Hamilton wedi cytuno i gyfnewid dyddiadau gyda hi, felly bydd ei Ddadl Fer yn cael ei chynnal ddydd Mercher.

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Reolwyr Busnes fod gan Gyfnod 3 y Bil Senedd ac Etholiadau ddydd Mercher gyfanswm o 181 o welliannau mewn saith grŵp ac felly rhagwelir y bydd yn cymryd tua 3 i 4 awr. Bydd y Dirprwy Lywydd yn galw egwyl byr o 10 munud cyn dechrau trafodion Cyfnod 3, a chaiff alw un arall yn ystod yr eitem pe bai angen

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y ffaith bod y cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyn Cosb Rhesymol) (Cymru) bellach wedi'i dynnu'n ôl gan nad oes ei angen. Dywedodd wrth y Rheolwyr

Busnes hefyd y bydd y ddadl Cyfnod 3 nawr yn digwydd ym mis Ionawr, a chytunodd i gadarnhau a yw'r oedi hwn oherwydd yr angen i gael caniatâd Gweinidog y Goron.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ac Ardal (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Eiddo Gwag (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

### 3.4 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – dethol cynnig ar gyfer dadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ddydd Mercher 20 Tachwedd:

**NNDM7188 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i alluogi rhoi ardoll ar barcio yn y gweithle.
2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:
a) galluogi awdurdodau lleol i weithredu ardoll ar barcio yn y gweithle, yn dibynnu ar nifer y lleoedd parcio a neilltuir i gyflogeion;
b) galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio'r refeniw i gryfhau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol;
c) lleihau tagfeydd traffig mewn canolfannau poblogaeth mawr;

d) annog cyflogwyr i hyrwyddo cynlluniau teithio llesol ar gyfer eu staff ac eiriol ar gyfer gwell trafnidiaeth gyhoeddus;
e) cymell Llywodraeth Cymru i annog awdurdodau lleol yng Nghymru i roi'r ardoll hon ar waith, fel rhan o gyfres o fesurau i fynd i'r afael â'r allyriadau carbon sy'n achosi argyfwng yn yr hinsawdd.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r ddwy ddadl nesaf ar 5 Chwefror ac 11 Mawrth 2020.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr amserlen gyllidebol ddiwygiedig, gyda dyddiad cau diwygiedig o 31 Ionawr i bwyllgorau adrodd, a nodwyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn penderfynu ddydd Mercher yr wythnos hon a ddylid cyfarfod yn ystod wythnos gyntaf y toriad. Cytunodd y Trefnydd i sicrhau bod Gweinidogion yn ymwybodol o'r angen i fod ar gael yn ystod wythnos gyntaf y tymor ym mis Ionawr ar gyfer craffu gan bwyllgorau.

## 5 Amcangyfrif Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr.

## 6 Y Cyfarfod Llawn

### 6.1 Pleidleisio drwy ddirprwy

Trafodwyd y papur gan y Rheolwyr Busnes, a gofynnodd Darren Miller i wrthwynebiad mewn egwyddor Grŵp y Ceidwadwyr i bleidleisio drwy ddirprwy gael ei gofnodi. Fodd bynnag, cytunodd y Rheolwyr Busnes i edrych ar gyflwyno pleidleisio drwy ddirprwy

mewn dau gam. Yn gyntaf, ystyried ei weithredu ar gyfer absenoldeb rhiant yn unig, ac yn ail ystyried y posibilrwydd o'i ymestyn i salwch tymor hir a chyfrifoldebau gofalu eraill, ar ôl i Dŷ'r Cyffredin adolygu ei gynllun.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth ddod â phapur iddynt ar yr opsiynau ar gyfer gweithredu pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer absenoldeb rhiant yn unig yn y lle cyntaf.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y cyfnod cyn yr etholiad

Nododd y Rheolwyr Busnes y canllawiau. Nododd Darren Millar fod paragraff 10 yn sôn am gyngor ar wahân i Gynghorwyr Arbennig Llywodraeth Cymru a gofynnodd a ellid rhannu hyn gyda'r Rheolwyr Busnes. Cytunodd y Trefnydd i rannu'r cyngor os yn bosibl.